

Hawdd ei Ddeall



Gwybod Eich Hawliau

Eich canllaw i'r ddyletswydd

Economaidd-Gymdeithasol



Ysgrifennwyd y ddogfen hon gan Anabledd Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Gwybod eich hawliau Defnyddio eich hawliau Byw eich hawliau'

Mawrth 2022

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y byddwch chi dal angen cymorth i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.



Gallai geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** fod yn anodd eu deall. Gallwch chi wirio beth mae'r holl eiriau mewn glas yn eu golygu ar **dudalen 19**.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn golygu **Anabledd Cymru**. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Gwefan: www.disabilitywales.org

E-bost: info@disabilitywales.org

Ffôn: 02920 887 325



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthon niym beth yw eich barn am y ddogfen hawdd ei deall hon, [cliciwch yma](#).

Cynnwys

Tudalen

Cyflwyniad	4
Ynglŷn â'n gwaith.....	5
Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.....	7
Gwybod eich hawliau.....	9
Defnyddio eich hawliau	13
Stori bywyd go iawn	15
Rhagor o wybodaeth.....	18
Geiriau anodd.....	19

Cyflwyniad



Ysgrifennwyd y llyfryn hwn gan **Anabledd Cymru**.



Mae'r llyfryn hwn ar gyfer Pobl Anabl a Sefydliadau Pobl Anabl.

Cydraddoldeb



Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth am **y ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**. Ond nid cyngor cyfreithiol yw e.



Mae cyfanswm o 8 llyfryn. Mae gan bob llyfryn wybodaeth am gyfraith wahanol.



Roedd y llyfryn hwn yn gywir ym mis Ionawr 2021. Ond gallai'r **Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol** newid yn y dyfodol.

Ynglŷn â'n gwaith



Rydym yn gweithio'n galed i ddiogelu **hawliau** Pobl Anabl.



Hawliau yw'r pethau y caniateir i chi eu gwneud. Er enghraifft, mae gennych yr hawl i briodi a'r hawl i bleidleisio.

Mae **hawliau** yn dweud wrthon ni sut y dylen ni gael ein trin. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i gael eich trin â pharch.


Mae gan bobl eraill **hawliau** hefyd. Er enghraifft, rhaid i chi drin pobl eraill â pharch.



Yn 2020, gofynnwyd i Bobl Anabl yng Nghymru am eu **hawliau**.




Dywedodd llawer o Bobl Anabl wrthon ni nad oedd eu **hawliau** yn cael eu diogelu'n dda yng Nghymru.



Roedd llawer o Bobl Anabl yn teimlo na fyddai hyn yn gwella yn y dyfodol.



Rydyn ni am i Bobl Anabl wybod a defnyddio eu **hawliau**. Ac i deimlo'n ddiogel.



Fe wnaethon ni ysgrifennu'r 8 llyfryn hyn i helpu.

Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol



Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.



Gallwch chi gael rhagor o wybodaeth am **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** yn **Gwybod eich Hawliau – Eich canllaw i Ddeddf Cydraddoldeb 2010**.

Mae'r **Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol** yn dweud bod pobl sy'n byw mewn **tlodi** yn fwy tebygol o:



- wneud yn wael yn yr ysgol



- bod ag iechyd gwaeth



- marw yn iau



Mae **tlodi** yn golygu peidio bod â digon o arian i dalu eich biliau, i'ch fwydo chi eich hun a'ch teulu, i wresogi'ch cartref, i brynu'r pethau sydd eu hangen arnoch ac i fynd o gwmpas.



Mae'r **Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol** am helpu pobl sy'n byw mewn **tlodi** i gael bywydau gwell.

Gwybod eich hawliau

Mae gan y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol reolau ar gyfer cyrff cyhoeddus.



Mae **cyrff cyhoeddus** yn wasanaethau sy'n cael eu rhedeg i'r cyhoedd. Er enghraifft, y GIG, awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, neu'r gwasanaeth tân.



Mae'r **Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol** yn dweud bod yn rhaid i **gyrff cyhoeddus** siarad â phobl sy'n byw mewn **tlodi**.



Dylai **cyrff cyhoeddus** ddarganfod sut mae eu penderfyniadau'n effeithio ar bobl sy'n byw mewn **tlodi**.



Bydd hyn yn helpu **cyrff cyhoeddus** i wneud penderfyniadau gwell am eu gwasanaethau.



Mae angen i **gyrff cyhoeddus** brofi eu bod nhw'n cadw at reolau'r **Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**.



Mae Pobl Anabl yn fwy tebygol na phobl nad ydyn nhw'n anabl o fyw mewn **tlodi**.



Rhaid i **gyrff cyhoeddus** ystyried Pobl Anabl wrth wneud penderfyniadau mawr.



Rhaid i **gyrff cyhoeddus** hefyd ystyried pobl â **nodweddion gwarchodedig**.

Mae **nodweddion gwarchodedig** yn bethau am bobl sy'n cael eu gwarchod gan y gyfraith. Fel anabledd neu rywedd.



Gallwch chi gael rhagor o wybodaeth am **nodweddion gwarchoddedig** yn **Gwybod eich Hawliau** - Eich canllaw i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.



Dylai **cyrff cyhoeddus** weithio gyda Phobl Anabl a **Sefydliadau Pobl Anabl**.



Bydd hyn yn helpu **cyrff cyhoeddus** i wneud penderfyniadau gwell ar gyfer Pobl Anabl.

Y **cyrff cyhoeddus** y mae'n rhaid iddyn nhw ddilyn y **Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol** yw:



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Gweinidogion Cymru

- awdurdodau lleol

- byrddau iechyd lleol



- y GIG

- awdurdodau iechyd arbennig yng Nghymru

- awdurdodau tân ac achub



- awdurdodau parciau cenedlaethol

- awdurdod refeniw Cymru.

Defnyddio eich hawliau



Nid yw'r **Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol** yn rhoi unrhyw **hawliau** newydd i chi.



Ond os nad yw **corff cyhoeddus** yn dilyn y **Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**, gallwch chi wneud cwyn.




Gallwch chi hefyd wneud hawliad yn erbyn y **corff cyhoeddus**. Yr enw ar y math hwn o achos yw **hawliad adolygiad barnwrol**.



Yna bydd yn rhaid i'r **corff cyhoeddus** brofi eu bod nhw'n dilyn y **Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**.



Ni ellir gorfodi **cyrff cyhoeddus** yn ôl y gyfraith i ddilyn y **Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**. Ond bydd y **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** yn eu gwthio i wneud y peth iawn.



Gallwch chi gael rhagor o wybodaeth am y **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** o'r **Llyfryn Gwybod Eich Hawliau - Mwy o Wybodaeth**.

Stori bywyd go iawn

Grŵp o bobl â nam ar y golwg yn Ne Cymru yn erbyn Cyngor Bwrdeistref yn Ne Cymru [2011]

Y stori



Roedd Cyngor am wneud i Bobl Anabl â Bathodynau Glas dalu am feysydd parcio'r cyngor.



Ni siaradodd y Cyngor â grwpiau anabl lleol am y peth yn gyntaf.



Ysgrifennodd grŵp nam ar y golwg at y cyngor i gwyno.



Fe wnaethon nhw ddweud bod y cyngor yn torri'r **Ddeddf Cydraddoldeb**.



Fe wnaethon nhw ddweud y dylai'r cyngor fod wedi siarad â phobl anabl yn gyntaf. I weld sut y gallen nhw gael eu heffeithio.



Fe wnaethon nhw ddweud bod llawer o bobl anabl yn dlawd. Ac y bydden nhw'n ei chael hi'n anodd talu.

Beth ddigwyddodd nesaf



Cysylltodd y grŵp nam ar y golwg ag Anabledd Cymru am help.



Fe wnaeth y cyngor ollwng y syniad o daliadau meysydd parcio.



Mae'r stori hon yn dangos sut na ddilynodd y cyngor y **Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**. Gan nad oedden nhw wedi siarad â grwpiau lleol yn gyntaf am y penderfyniad hwn.



Ac nid oedden nhw wedi ystyried sut y byddai'n effeithio ar Bobl Anabl.

Rhagor o wybodaeth

Atebion Llywodraeth Cymru i gwestiynau am y **Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol:**

llyw.cymru/dyletswydd-economaidd-gymdeithasol-trosolwg

Canllaw Llywodraeth Cymru am y **Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol:**

gov.wales/sites/default/files/publications/2020-07/commencing-socio-economic-duty-factsheet.pdf

Canllaw byr Llywodraeth Cymru am y **Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol:**

gov.wales/sites/default/files/publications/2020-10/socio-economic-duty-supporting-information_0.pdf

Dogfennau a ddefnyddiwyd gan **Llywodraeth Cymru** i helpu i ysgrifennu'r **Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol:**

llyw.cymru/deddf-cydraddoldeb-2010-cychwyn-y-ddyletswydd-economaidd-gymdeithasol

Canllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer **cyrff cyhoeddus:**

llyw.cymru/y-ddyletswydd-economaidd-gymdeithasol

Ffilm animeiddio Llywodraeth Cymru:

llyw.cymru/cymru-fwy-cyfartal-y-ddyletswydd-economaidd-gymdeithasol

Ffilmiau Llywodraeth Cymru am straeon bywyd go iawn:

youtube.com/playlist?list=PLHBVoCVw4XZRI-doZMDNNT4hdfb3EBKq

Geiriau anodd

Cyrff cyhoeddus

Mae cyrff cyhoeddus yn wasanaethau sy'n cael eu rhedeg i'r cyhoedd. Er enghraifft, y GIG, awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, neu'r gwasanaeth tân.

Hawliau

Hawliau yw'r pethau y caniateir i chi eu gwneud. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i briodi a'r hawl i bleidleisio.

Mae hawliau'n dweud wrthon ni sut y dylen ni gael ein trin. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i gael eich trin â pharch.

Mae gan bobl eraill hawliau hefyd. Er enghraifft, rhaid i chi drin pobl eraill â pharch.

Nodweddion gwarchodedig

Mae nodweddion gwarchodedig yn bethau am bobl sy'n cael eu gwarchod gan y gyfraith. Fel anabledd neu rywedd.

Tlodi

Mae tlodi'n golygu peidio bod â digon o arian i dalu eich biliau, i'ch fwydo chi eich hun a'ch teulu, i wresogi'ch cartref, i brynu'r pethau sydd

